



POLISI DIOGELU PLANT

Ym mhob un o'r polisiau fe anelwn at gyflawni nodau ac amcanion fframwaith saith nod Craidd Hawliau Gweithredu Pobl Ifanc Cymru.

"DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD"

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliath ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiaeth eu hardal a'u gwlad. Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy'n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus a'u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a'u cyrff ac fe fydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her a sialens y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddent am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

Llinell Amser Cyflwyno Polisi Diogelu Plant 2025-26

Cafodd y polisi Diogelu a pholisiau cysylltiedig eu diweddarau yn ystod mis Medi/Hydref 2025. Bydd y broses ymgynghori ar y diweddariadau yn digwydd fel a ganlyn:

Yn gysylltiedig â'r polisi Diogelu Plant bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- Polisi Diogelu Plant
- Polisi Gwrth-fwlio
- Polisi Cydraddoldeb

Pwy?	Sut?	Pryd?
UDA	Cyfarfod UDA	06-10-25
Staff llawn	Cyfarfod Llais y Staff	09-10-25
Senedd Ysgol	Cyfarfod Senedd Ysgol	10-10-25
Llywodraethwyr	Cyfarfod Llywodraethwyr Llawn	15-10-25
Holl ddisgyblion	Gwasanaethau ysgol gyfan – Gwrth-fwlio	w/d 03-11-25

Dyddiad cau i rannu adborth ar y polisiau oedd Dydd Gwener 24ain o Hydref 2025

1. Cyflwyniad
2. Atal
3. Gweithdrefnau
4. Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plant
5. Corff Llywodraethu'r Ysgol
6. Cefnogi'r rhai sy'n wynebu risg
7. Gwrth-Hiliaeth
8. Gwrth-Fwlio
9. Ymyrraeth Gorfforol
10. Plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol
11. Dyletswydd Atal
12. Dysgu Ar-lein
13. Defnyddio Delweddau
14. Recriwtio a Dethol
15. Hunanwerthuso ac Archwilio
16. Honiadau yn erbyn Cyflogai a Gwirfoddolwyr
17. Hyfforddiant Diogelu
18. Meddalwedd MyConcern
19. Casglu a Rhyddhau Plant o'r Ysgol - Disgyblion Blwyddyn 6
20. Rhoi Terfyn Ar Gosbi Plant yn Gorfforol
21. Plant sy'n ymuno â'r system derbyn gofal
22. Beichiogrwydd ardegau
23. Camfanteisio ar blant yn droseddol ac yn rhywiol (CBDRh)
24. Iechyd Meddwl, Hunanladdiad a Hunan-niweidio
25. Rhwydweithio Cymdeithasol a chadw'n ddiogel ar-lein
26. Camddefnyddio Sylweddau ym maes addysg
27. Siaradwyr Allanol ac Ymwelwyr
28. Polisi Llogi Lleoliad

Cysylltiadau allweddol o fewn yr ysgol

Person Diogelu Dynodedig Amddiffyn Plant - PDD	Nia Rowlands	01446 450280
Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig Amddiffyn Plant Ysgol Uchaf	Laura Downey	01446 450280
Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig Amddiffyn Plant Ysgol Isaf	David Morgan	01446 450280
Llywodraethwy Diogelu Dynodedig	Anne-Louise Llywellyn-Morgan	07789 648350
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Rob Evans	07970 190944

Cysylltiadau allweddol yn yr Awdurdod Lleol

Atgyfeiriad at wasanaethau plant a phobl ifanc (GPPH) Bro Morgannwg

Pan fo gan ysgolion bryderon **Brys** ac **Uniongyrchol** am ddiogelwch a lles plentyn neu berson ifanc yn ystod oriau swyddfa, ffoniwch: **01446 725202**

Er mwyn gwneud atgyfeiriadau **Brys** y tu allan i oriau swyddfa ffoniwch **029 20788 570**

Yr Heddlu (Amddiffyn Plant): 101, neu mewn argyfwng 999

Tîm Diogelu Dysgu a Sgiliau	Jason Redrup jredrup@valeofglamorgan.gov.uk Sarah Collier scollier@valeofglamorgan.gov.uk	01446 709867
Swyddog Dynodedig Awdurdodau Lleol - SDALI	Natasha James	01446 700111
Swyddog Diogelu Dynodedig - SDD	Helen Anderson	01446 700111
Arweinydd Diogelu Dysgu a Sgiliau	Katy Williams	01446 700111

Dylid anfon ymholiadau / atgyfeiriadau mewn perthynas â phryderon Diogelu am ymarferwyr neu unigolion sydd mewn swydd o ymddiriedaeth at **Jason Redrup** a **Helen Anderson**

1. Cyflwyniad

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn plant a bod gan blant yr hawl i gael eu diogelu a'u hamddiffyn rhag niwed.

Caiff ein polisi ei lywio gan ymagwedd hawliau plant at ddiogelu fel fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

- Atal drwy'r diwylliant, yr addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddysgwyr;
- Gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu achosion tybiedig, o gamdriniaeth – oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant mae ein staff mewn sefyllfa dda i arsylwi ar arwyddion allanol camdriniaeth;
- Cymorth i ddysgwyr a allai fod wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol a'r llywodraethwyr. Gall cynorthwyrwyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt datgelu cyntaf i blentyn.

Dylid darllen ein polisi ar y cyd â dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru rhif: 283/2022 *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/220401-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel.pdf>

2. Atal

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a chyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i amddiffyn plant.

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn :

- sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad ac yn cael clust i wrando arnynt.
- sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn y lleoliad addysg y gallant fynd atyn nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt mewn trafferthion;
- cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm, sy'n rhoi'r sgiliau y mae eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth a gwybod at bwy y gallent droi am help;
- cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran gofal plant a sgiliau rhianta.
- meithrin perthynas ag asiantaethau eraill a sicrhau bod atgyfeiriadau cynnar a phriodol ar gyfer cymorth ac ymyrraeth yn cael eu gwneud cyn i'r risgiau waethygu.
- mabwysiadu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant a fydd yn ymgorffori mesurau diogelu ac ataliol i gefnogi plant a theuluoedd.

3. Gweithdrefnau

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru a gymeradwywyd gan 58 o Fyrddau Diogelu Plant. Bydd ein hysgol yn:

- sicrhau bod gennym Uwch Berson Diogelu Dynodedig ar gyfer diogelu sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant priodol;

- cydnabod rôl y Person Diogelu Dynodedig a threfnu cymorth a hyfforddiant L1 Diogelu i bob aelod o staff, Hyfforddiant MyConcern i bob aelod o staff, Hyfforddiant L2 Diogelu i'r UBDD a'r DBDD;
- sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
 - enw'r PDD a'i rôl ac enw'r llywodraethwr diogelu dynodedig (LIDD)
 - bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu i'r heddlu am blant sy'n wynebu risg a phryderon amddiffyn, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019; a
 - sut i fwrw'r pryderon hynny yn eu blaen pan nad yw'r Person Diogelu Dynodedig ar gael.
- sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn wylidwrus am arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod a gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustod.
- sicrhau bod aelodau staff sy'n gofrestryddion Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cofrestryddion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a'r disgyliad o fewn y Cod bod cofrestrydd yn rhoi sylw i ddiogelwch a lles dysgwyr yn eu gofal a chynnwys cysylltiedig;
- sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth o'r cyfrifoldeb sydd gan yr ysgol a staff am ddiogelu ac amddiffyn plant drwy nodi ei rwymedigaethau ar wefan yr ysgol;
- darparu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod:
 - yn deall eu cyfrifoldeb personol;
 - yn gwybod y gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb;
 - yn ymwybodol o'r angen i fod yn wylidwrus wrth nodi achosion o gam-drin ac esgeuluso;
 - gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod; a
 - deall y rôl y gallai ymddygiadau ar-lein eu cael ym mhob un o'r uchod
- hysbysu tîm gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol pan fo:
 - disgybl ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn cael ei wahardd, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol; neu
 - pan fo disgybl sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn absennol o'r ysgol heb esboniad am fwy na dau diwrnod (neu un diwrnod ar ôl penwythnos).
- gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a gweithredol fel sy'n ofynnol gyda'n hymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant gan gynnwys mynychu cynadleddau a grwpiau craidd amddiffyn plant cyntaf a dilynol a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau;
- cadw cofnodion digidol o bryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd) ar blatfform MyConcern, hyd yn oed os nad oes angen cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol ar unwaith;
- defnyddio platfform meddalwedd MyConcern ar gyfer rheoli'r holl bryderon diogelu;
- sicrhau bod yr holl gofnodion diogelu yn cael eu cadw'n ddiogel ar lwyfan meddalwedd diogelu MyConcern;
- glynu wrth y gweithdrefnau a nodir yng Ngweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Llywodraeth Cymru ar gyfer Staff Ysgol;
- sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru; a

- dynodi llywodraethwr ar gyfer diogelu (LIDD) a fydd yn goruchwyllo polisi ac arfer amddiffyn plant yr ysgol gan sicrhau bod y Llywodraethwr hwn yn mynychu hyfforddiant Llywodraethwyr Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol bob dwy flynedd.

pan fydd aelod o staff, addysgu neu arall, yn cael gwybod am arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod, dylai:

- drafod y mater gydag UBD yr ysgol neu yn ei absenoldeb y Dirprwy UBD. Os penderfynir bod angen atgyfeirio'r digwyddiad, **rhaid i'r UBD yn achos argyfwng pan fo pryderon amddiffyn plant wneud atgyfeiriad dros y ffôn ar unwaith i'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc** drwy ffonio'r Swyddog Dyletswydd ar 01446 725202, neu y tu allan i oriau ar 02920 788570, os na allant gysylltu â'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc, yna mae angen i'r atgyfeiriwr ddeialu 999 a rhoi gwybod i'r heddlu am y mater fel argyfwng. Rhaid dilyn hyn o fewn un diwrnod gwaith drwy lenwi'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (FfAA) a'i hanfon dros e-bost at: dutymarfs@bromorgannwg.gov.uk. Gellir atgyfeirio achosion nad oes angen amddiffyn plant ar unwaith drwy gyflwyno MARF. Os rhoddir tic yn y blwch atgyfeirio "Plentyn mewn Angen", rhaid i'r MARF gael cydsyniad y rhieni ynghlwm. Nid oes angen cydsyniad rhieni ar gyfer y blwch atgyfeirio "CP".

Gellir gofyn am gyngor cyn atgyfeirio drwy drafod pryder gyda desg ddyletswydd GPPI, neu'r Swyddog Diogelu ar gyfer Dysgu a Sgiliau.

4. Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plant

Mae Deddf Plant 1989 a 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio cam-drin fel a ganlyn:

'Caiff plentyn ei gam-drin pan fo rhywun yn ei niweidio, neu ddim yn atal niwed iddo. Gall plant gael eu cam-drin o fewn teulu neu mewn sefydliad neu gymuned gan bobl maen nhw'n eu hadnabod neu, yn fwy anarferol, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed gael ei gam-drin neu'i esgeuluso a gall fod angen ei amddiffyn drwy gynllun amddiffyn plant rhyngasiantaethol'

- **Cam-drin Corfforol**
Taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal yn afresymol, neu gosbau amhriodol.
- **Cam-drin Emosiynol / Seicolegol**
Bygwth niweidio neu adael y plentyn, rheolaeth drwy orfodaeth, codi cywilydd, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, gweld eraill yn cael eu cam-drin.
- **Cam-drin Rhywiol**
Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol; gweithgareddau di-gyswllt, fel cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, deunydd pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.
- **Cam-drin Ariannol**
Bydd y categori hwn yn llai cyffredin ymhlith plant ond gallai dangosyddion gynnwys:
 - peidio â bodloni eu hanghenion gofal a chymorth a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol; neu
 - gwynion bod eiddo personol yn mynd ar goll.
- **Esgeulustod**
Peidio â bodloni anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at nam ar iechyd neu ddatblygiad.

Gall risg o niwed gwirioneddol neu bosibl arall i blentyn neu berson ifanc hefyd ddeillio o:

- gamfanteisio troseddol megis llinellau cyffuriau
- gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CRhB)
- radicleiddio neu eithafiaeth
- anffurfio organau cenhedlu benywod
- gaethwasiaeth fodern
- gam-drin ar sail anrhydedd

Mae mwy o wybodaeth am y math hwn o niwed am esboniad pellach yn y rhestr termau ar wefan [Diogelu Cymru](#).

5. Corff Llywodraethu'r Ysgol

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant effeithiol ar waith sy'n unol â chanllawiau'r awdurdodau lleol a Chadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022;
- bod polisi a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol:
 - ar gael i rieni a gofalwyr
 - yn cael eu darparu mewn fformat sy'n briodol i ddealltwriaeth plant, ac yn arbennig ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol
- bod yr ysgol yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal ar gyfer staff a gwirfoddolwyr newydd a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG);
- bod y Pennaeth a'r holl staff parhaol eraill a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn ymgymryd â hyfforddiant priodol i gael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol, a diweddarau hyn gyda hyfforddiant gloewi;
- bod y corff llywodraethu yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd a nodwyd sydd angen eu gwella o ran trefniadau amddiffyn plant y tynnwyd ei sylw atynt;
- bod y corff llywodraethu sy'n sicrhau bod yr uwch berson dynodedig (UBD), y llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant (LIDD) a chadeirydd y llywodraethwyr yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu perthnasol ac yn ei gynnal fel y cytunwyd gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

6. Cefnogi'r rhai sy'n wynebu risg

Rydym yn cydnabod y gallai plant / pobl ifanc sy'n wynebu risg, yn dioddef camdriniaeth neu'n profi trais dioddef yn ddifrifol oherwydd hynny.

Efallai mai ein hysgol ni fyddai'r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau plant sy'n wynebu risg. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol, gall eu hymddygiad fod yn heriol ac yn anufudd neu'n dawedog.

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ymdrechu i gefnogi'r disgybl drwy:

- gynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant.
- ethos ein hysgol:
 - hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel; ac
 - rhoi ymdeimlad i ddysgwyr o gael eu gwerthfawrogi (gweler adran 2 ar Atal)

- nod polisi perthynas ein hysgol yw cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn yr ysgol. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull gweithredu cyson sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod/ei bod yn cael ei werthfawrogi/gwerthfawrogi ac nad arnyn nhw y mae'r bai am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd;
- cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r disgybl, gan gynnwys y canlynol:
 - Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaethau Ymgysylltu neu'r Gwasanaeth Lles Addysg
 - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a gwasanaethau eirioli;
- cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd pryder yn codi eto.
- sicrhau pan fydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- yn meddu ar gyfeiriad e-bost diogel addas er mwyn i hysbysiadau gael eu derbyn fel rhan o Ymgyrch Cwmpasu, ac i gefnogi'r plentyn sy'n destun yr hysbysiad hwnnw

7. Gwrth-Hiliaeth (i'w ddarllen law yn llaw â'r polisi Cydraddoldeb)

Mae ein cymuned ysgol o'r farn y dylid trin hiliaeth mewn addysg fel mater diogelu. Mae gennym bolisi gwrth-hiliaeth gyda phrosesau a gweithdrefnau i ni eu dilyn pan gyfyd digwyddiad. Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn ein cefnogi i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon gan gynnwys hiliaeth. Mae'r ysgol gwrthod pob math o ymddygiad hiliol ac rydym wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu hiliol (gan gynnwys hiliaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol, difenwad, cam-drin, gwrthsemitiaeth, aflonyddu ac erledigaeth) yn ein sefydliad, cwricwlwm ac yn yr amgylchedd dysgu a gwaith

8. Gwrth-fwlio

Mae gennym bolisi gwrth-fwlio, sydd wedi'i nodi yn (*gweithdrefnau gwrth-fwlio 2020*) ac fe'i hadolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu. Mae'n gyson â *Pholisi Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau 2021 a Chanllawiau gwrth-fwlio mewn Ysgolion/Lleoliadau Addysgol wedi'u diweddarau* (2014) Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Bro Morgannwg a Dogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru Rhif: 050/2011 Canllawiau ar Hawliau, Parch, Cydraddoldeb 2019,

9. Ymyrraeth corfforol

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn dilyn polisi a chanllawiau ar Ymyrraeth Corfforol Sir Bro Morgannwg: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ymyriad-diogel-ac-effeithiol-defnyddio-grym-rhesymol-a-chwilio-am-arfau.pdf>



Policy - Restrictive
Practices and Physical

10. Plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym yn cydnabod y gall plant ag anghenion ac anabledau dysgu ychwanegol fod yn fwy agored i gael eu cam-drin yn ystadegol. Mae angen i staff yr ysgol sy'n ymwneud â phlant ag anabledau dwys a lluosog, nam ar y synhwyrau a/neu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gamdriniaeth.

11. Dyletswydd Atal ((i'w ddarllen law yn llaw a'r polisi 'Cydraddoldeb' a 'Gweithdrefnau Llwyrgloi Mai 2024')

Mae ein polisi i amddiffyn disgyblion rhag radicaleiddio ac eithafiaeth yn cydymffurfio â'r *Canllawiau Dyletswydd 'Prevent' diwygiedig ar gyfer Cymru a Lloegr* (2015)

<https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance/revised-prevent-duty-guidance-for-england-and-wales>

a dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru rhif: 045/2011 *Gwrthsafiad a Pharch*

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gwrthsafiad-a-pharch-datblygu-cydluniant-cymunedol.pdf>

a'u llywio gan y *pecyn hunan-asesu Gwrthsafiad a Pharch 2016*

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/pecyn-hunanasesu-gwrthsafiad-a-pharch.pdf>

Rydym yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio ag E-ddysgu PREVENT y Swyddfa Gartref a bod yr ysgol yn sicrhau bod mesurau diogelwch parhaus ar waith i helpu i gadw cymuned yr ysgol gyfan yn ddiogel.

Fel rhan o bolisi trosfwaol gwrthderfysgaeth cenedlaethol CONTEST, mae gan ysgolion rôl allweddol o fewn yr elfen PREVENT, mae hyn yn cynnwys nodi'r rhai sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio ynghyd â sicrhau bod prosesau a pholisïau diogelwch ysgolion yn cael eu hystyried yn erbyn bygythiad hollbresennol terfysgaeth. Bydd y dolenni isod yn helpu ysgolion i ddeall y ddyletswydd hon ymhellach a'r ffordd orau o gyflwyno unrhyw atgyfeiriadau angenrheidiol i'r gwasanaeth diogelwch.

[Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Prevent Cymru Gyfan - Cymraeg \(south-wales.police.uk\)](https://south-wales.police.uk)

12. Dysgu ar-lein

Fel ysgol byddwn yn cymryd yr arweiniad a'r cyngor a nodir yn *Cadw'n Ddiogel Ar-lein (Diwygiedig): egwyddorion ac ymarfer ffrydio byw a fideo-gynadledda*

<https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/ffrydio-byw-a-fideo-gynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu/>, i sicrhau bod ein cymuned ysgol gyfan yn cael ei chadw'n ddiogel wrth ddysgu ar-lein.

13. Defnyddio delweddau

Gellir tynnu delweddau ffotograffig a ffilmio fideos o blant at amrywiaeth o ddibenion. Bydd gofyn i staff dynnu lluniau o ddisgyblion at ddibenion y cwricwlwm, gweithgareddau ysgol ychwanegol, cyhoeddusrwydd a dathlu cyflawniad.

Dylid bod yn arbennig o ofalus ynghylch defnyddio delweddau a all gynnwys plant sy'n derbyn gofal neu blant o grwpiau eraill sy'n agored i niwed, er enghraifft ceiswyr lloches.

Rhaid i bob rhiant/gofalwr roi caniatâd penodol i unrhyw ddelwedd o'i blentyn gael ei chofnodi neu ei rannu.

Ni ddylai staff byth ddefnyddio eu hoffer personol eu hunain i gymryd lluniau.

Argymhellir dilyn y canllawiau canlynol wrth ddefnyddio ffotograff:

- Os defnyddir y ffotograff, peidiwch ag enwi'r plentyn
- Os enwir y plentyn, peidiwch â defnyddio'r ffotograff
- Pennwch a chofnodwch p'un a fydd y ddelwedd yn cael ei chadw i'w defnyddio ymhellach
- Caiff delweddau eu storio'n ddiogel a'u defnyddio gan y rheini sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny yn unig: dylent fod ar gyfer craffu er mwyn sicrhau derbynioldeb.

14. Recriwtio a Dethol

Mae ein hysgol wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac mae'n disgwyl i bob cyflogai, gweithiwr asiantaeth, contractwr a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn.

Recriwtio Mwy Diogel yw'r cam cyntaf tuag at ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn ein hysgol drwy weithredu polisi a gweithdrefnau sy'n helpu i rwystro, gwrthod, atal neu ganfod pobl a allai gam-drin plant neu sydd fel arall yn anaddas i weithio mewn amgylchedd ysgol.

Mae ein polisi ar recriwtio mwy diogel yn cydymffurfio â *Pholisi Recriwtio Mwy Diogel* (Diwygiwyd 2021) Cyngor Bro Morgannwg

<https://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Schools/Schools-HR-Policies/Safer-Recruitment-Policy.pdf>

a *Canllawiau Recriwtio Mwy Diogel* a dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru rhif: 283/2020 *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/220401-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel.pdf>

15. Hunanwerthuso ac Archwilio

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn cynnal adroddiad hunanwerthuso diogelu cyfredol a adolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu ac sy'n gyson â'r *Ffurflen hunanwerthuso ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant* gan Estyn.

16. Honiadau yn erbyn Cyflogeion a Gwirfoddolwyr

Bydd unrhyw honiad o gam-drin a wneir gan neu ar ran plentyn yn cael ei gymryd o ddifrif a bydd rhywun yn gwrandao ar y plentyn ac yn ymdrin ag ef yn sensitif.

Mae gan Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddyletswydd gofal hefyd i'n gweithwyr a'n gwirfoddolwyr a byddwn yn cefnogi unigolion sy'n destun honiad i reoli a lleihau'r straen sy'n rhan annatod o'r broses honiadau.

Mae gan Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg weithdrefnau wedi'u hamlinellu sy'n glynu wrth y gweithdrefnau a nodir yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 009/2014 *Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill*

Pan fydd honiad wedi'i wneud yn erbyn aelod o staff, rhaid hysbysu'r Pennaeth ar unwaith, a bydd y Pennaeth yn rheoli'r honiad drwy roi gwybod i Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (SDALI) gyda chymorth y Dysgu & Swyddog Diogelu Sgiliau.

Pan fydd honiad wedi'i wneud yn erbyn y Pennaeth, rhaid hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr ar unwaith. Yna bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn rheoli'r honiad drwy roi gwybod i'r Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol (SDALI) gyda chefnogaeth Swyddog Diogelu Dysgu a Sgiliau.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/diogelu-plant-mewn-addysg-ymdrin-a-honiadau-o-gam-drin-yn-erbyn-athrawon-a-staff-eraill.pdf>

a *Gweithdrefnau Diogelu Cymru: Adran 5, honiadau / pryderon am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn safle o ymddiriedaeth* [Diogelu Cymru](#).

17. Hyfforddiant Diogelu

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl staff (parhaol a dros dro) a gwirfoddolwyr yn ymgymryd â'r hyfforddiant priodol i roi iddynt yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn effeithiol, sy'n cael ei ddiweddarau gan hyfforddiant gloywi blynyddol, a elwir yn hyfforddiant Lefel 1.

Mae ein hysgol yn sicrhau bod yr Uwch Berson Dynodedig (UBD), a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LIDD) ar gyfer diogelu yn cael hyfforddiant i'r safonau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd

Diogelu Rhanbarthol. Yn ogystal â hyfforddiant diogelu sylfaenol lefel 1, rhaid i'r UBD a'r LIDD ymgymryd â hyfforddiant gloywi blynyddol, a elwir yn hyfforddiant lefel 2. Mae'r lefelau hyfforddi hyn wrthi'n cael eu disodli gan fframwaith hyfforddi cenedlaethol y cyfeirir ato fel hyfforddiant Grŵp B.

18. Meddalwedd MyConcern

Defnyddir meddalwedd diogelu MyConcern gan Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae'n system syml a diogel ar gyfer cofnodi a rheoli'r holl bryderon diogelu, bugeiliol a lles.

Mae staff yn cofnodi ac yn rheoli unrhyw bryderon diogelu wrth iddynt ddigwydd. Wedi'i integreiddio â Arbor, mae MyConcern yn tynnu'r wybodaeth berthnasol am fyfyrwyr o Arbor i greu proffil myfyriwr yn MyConcern. Anfonir hysbysiadau awtomatig at yr arweinydd diogelu dynodedig pan ychwanegir unrhyw bryderon newydd gan ddefnyddwyr.

Mae MyConcern yn caniatáu i ysgolion hwyluso cydweithio a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid a chydweithwyr dibynadwy megis Mentoriaid Ieuenctid yr ysgol neu weithiwr cymdeithasol plentyn, drwy eu hychwanegu fel aelodau tîm at bryder penodol neu broffil myfyriwr yn MyConcern. Mae hyn yn hyrwyddo darlun cyflawn o les unigolyn ac yn galluogi aelodau perthnasol y tîm i weithredu pan fo angen heb orfod anfon diweddariadau ychwanegol drwy e-bost.

Gellir lanlwytho dogfennau, cofnodion, MARF a ffurflenni atgyfeirio eraill a mathau eraill o gyfryngau, a'u cysylltu â chofnod y disgybl. Mae hyn yn lleihau'r angen am gofnodion papur ac yn canoli'r holl wybodaeth berthnasol ac ategol. Mae'n galluogi ein hysgol i reoli a blaenoriaethu camau gweithredu a dangos effeithiolrwydd trefniadau diogelu i Estyn, Llywodraethwyr ac Uwch Arweinwyr a sbarduno gwell canlyniadau i fyfyrwyr.

Gellir creu adroddiadau ar unrhyw gyfuniad o gategoriâu o bryder neu wybodaeth am fyfyrwyr dros gyfnod penodol neu ddeinamig. Mae adroddiadau nodweddiadol y gall ysgolion eu rhedeg yn cynnwys dadansoddiad o 'gyfanswm pryderon fesul mis', 'pryderon yn ôl categori', 'adroddiad llywodraethwyr tymhorol' ac ati.

Mae gan ysgolion gyfrifoldeb cyfartal i sicrhau bod dogfennaeth / gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd diogel ac amserol gyda'r holl bartneriaid diogelu perthnasol.

Polisiâu Cysylltiedig a Gwybodaeth Ychwanegol

19. Casglu a Rhyddhau Plant o'r Ysgol - Disgyblion Blwyddyn 6

Bydd hawl gan ddisgyblion Blwyddyn 6 i gerdded adref o'r ysgol ar eu pennau eu hunain. Ni fydd hawl gan y disgyblion hyn i gerdded adref gyda'u brodyr a chwiorydd sydd yn iau. Teimlwn fod y disgyblion, erbyn yr amser hyn, wedi magu annibyniaeth ac yn gallu adnabod risgiau. Cyn i'r disgyblion gerdded adref o'r ysgol byddwn wedi dosbarthu llythyr i rieni ac wedi trafod rheolau y broses. Ni fydd un plentyn yn cael cerdded adref o'r ysgol heb fod llythyr caniatâd wedi ei dderbyn gan yr ysgol. Cyn iddynt gerdded adref o'r ysgol byddwn yn adolygu ac yn pwysleisio'r canlynol gyda'r disgyblion:

- I ddilyn rheolau diogelwch y ffordd gan gerdded at groesfanau addas lle mae goleuadau yn cynorthwyo.
- Os oes rhaid croesi ffordd lle nad oes goleuadau traffig, byddwn yn cynghori disgyblion i groesi lle mae modd gweld y traffig yn dod o'r ddau gyfeiriad.
- I fod yn wyladwrus o seiclwyr ar y ffordd.
- I beidio dilyn neu siarad gydag unrhyw ddieithryn ar y ffordd adref.

Os yw disgyblion yn dangos ymddygiad amhriodol neu yn peidio â dilyn y rheolau uchod, yr ysgol fydd yn penderfynu p'un ai yw'r plentyn yn parhau i gerdded adref o'r ysgol.

Casglu disgyblion diwedd y dydd

Rhaid i unrhyw unigolyn sydd yn casglu disgybl sydd yn iau na Blwyddyn 6 fod yn 16 oed neu'n hŷn. Ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw blentyn o'r Ysgol Isaf at berson sydd yn iau'r na'r oedran uchod.

20. Rhoi Terfyn Ar Gosbi Plant yn Gorfforol

Roedd 21 Mawrth 2022 yn ddyddiad hanesyddol i blant a'u hawliau yng Nghymru. O'r diwrnod hwn mae'n anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Mae'r newid hwn yn cael ei gyflawni gan Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (y Ddeddf). O 21 Mawrth 2022, ni fydd unrhyw un yng Nghymru yn gallu defnyddio 'amddiffyniad o gosb resymol' fel amddiffyniad ar gyfer ymosodiad cyffredin. Bydd pob cosb gorfforol ar blant yn anghyfreithlon yng Nghymru. Isod mae rhai dolenni ychwanegol i esbonio'r newidiadau ymhellach.

[Rhoi Terfyn ar Gosb Gorfforol yng Nghymru: taflen ffeithiau ar gyfer y gweithlu addysg | LLYW.CYMRU](#)

<https://wales.assetbank-server.com/assetbank-wales/images/assetbox/ce40e904-b1b3-4ca8-b0f6-98f9e78cd2ad/assetbox.html>

[| Cysur | Sesiynau Briffio 7 Munud](#)

21. Plant sy'n ymuno â'r System Derbyn Gofal

Mae rhianta corfforaethol yn hyrwyddo cyfrifoldeb cyfunol gweithwyr awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a chyfleoedd bywyd Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Mae gweithwyr awdurdodau lleol yn rhieni corfforaethol i PDG. Gall plant ddod i dderbyn gofal drwy gytundeb gyda rhieni neu drwy orchymyn llys. Mae'r rhan fwyaf o blant mewn gofal yn ddiogel rhag niwed ac yn gwneud yn dda, ond i rai mae yna risgiau. I blant ar orchymyn gofal llawn, gweithiwr cymdeithasol y plentyn sydd â'r cyfrifoldeb rhiant llawn. Os ydy'r plentyn ar orchymyn gofal interim neu wedi leoli gyda gorchymyn rhianta, mae'r awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant. Pan fydd gan ysgolion bryderon diogelu neu lle mae plant sy'n derbyn gofal yn absennol heb awdurdod, dylai ysgolion gysylltu â gweithiwr cymdeithasol y plentyn a hwyluso ymateb cyflym ac effeithiol i hyn.

Mae plant sy'n derbyn gofal:

- mewn mwy o berygl o gael eu bwlio neu eu cam-drin gan gyfoedion.
- yn fwy tebygol o fod yn darged i gamfanteisio rhywiol.
- yn llawer mwy tebygol o ffoi'r cartref.
- mewn mwy o berygl o gamddefnyddio sylweddau oherwydd profiadau bywyd cynnar.
- yn fwy tebygol o ddiodef trafferthion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl oherwydd trawma.
- mewn risg uwch o gael rhyw fath o oedi datblygiadol.
- o bosib yn mynd i gael problemau gyda'u hunaniaeth.
- yn fwy tebygol o brofi rhwystrau rhag dysgu.

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn chwarae rôl allweddol wrth amddiffyn plant mewn gofal.

Mae gan yr ysgol gael arweinydd dynodedig (Laura Downey) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bydd yr arweinydd dynodedig yn:

- gwybod pwy yw gweithiwr cymdeithasol y plentyn
- yn ymwybodol o arwyddion o gam-drin ac esgeulustod.
- yn ymwybodol o fregusrwydd plant mewn gofal.
- canolbwyntio ar anghenion unigol y plentyn.
- gwybod beth yw'r cynlluniau penodol ar gyfer unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal rydych chi'n gyfrifol amdano.

- These guidelines provide advice on offering health services or treatment to young people under 16, including assessing their ability to consent and the nature of the relationship involved.
- Staff should always consider whether it is appropriate to share information with parents or carers as part of the assessment, based on the best interests of the child or young person. Where possible, the young person should be encouraged to inform their parent or carer. However, this may be inadvisable if doing so would place the child at risk of harm.
- If a staff member is unsure of the appropriate course of action, they must consult the Duty Team or the Education Safeguarding Team.
- A MARF is required if There are concerns that the child and/or unborn child is at risk of harm, or the pupil is under 13 years old.

23. Child Criminal and Sexual Exploitation (CCE/CSE)

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg recognises its responsibility to safeguard and promote the welfare of pupils where there are concerns that they may be at risk of being abused through any form of exploitation — criminal, sexual, or otherwise. Child exploitation refers to forcing or manipulating children and young people into taking part in activities (criminal, sexual, etc.).

It is a form of sexual abuse in exchange for some form of payment — which might include money, mobile phones, drugs, alcohol, accommodation, “protection,” or affection. The vulnerability of the young person and the grooming process used by perpetrators often prevent them from recognising the exploitative nature of the relationship or from giving informed consent.

Forms of Exploitation include:

- Abuse through exchanging sexual activity for money or gifts.
- Abuse through producing indecent images or other inappropriate material involving children (photos, films, or other technologies).
- Abuse through grooming, either in person or via technologies such as mobile phones or the internet.
- Abuse through trafficking for sexual or criminal purposes.
- Abuse through “cuckooing” (taking control of an individual’s home or property).

Children do **not** volunteer to be sexually exploited, and they cannot consent to their own abuse; they are coerced or manipulated.

Child Sexual Exploitation (CSE) may occur when someone gives a young person affection, food, money, or gifts, and then demands sexual acts “in return.”

They may make the young person feel special, as though in a relationship, but this is not genuine. At times, they may be violent or verbally abusive. (*Children’s Sexual Exploitation Steering Group, 2019*). If the school believes a pupil may be at risk of CSE, staff will complete a Sexual Exploitation Risk Assessment Framework (SERAF) and seek advice from the Vale Duty Team. Further information can be found in the All-Wales Child and Young Person Sexual Exploitation Protocol (2013).

24. Mental Health, Suicide, and Self-Harm

See the school’s ‘Healthcare Needs Policy’

25. Social Networking and Online Safety

See the school’s ‘E-Safety Policy’

26. Substance Misuse in Education



See the school’s ‘Substance Misuse Prevention Policy’

27. External Speakers and Visitors

See the school's 'Educational Visits Policy'

28. Premises Hire Policy

See the school's 'School Property Lettings Policy'

	Signature	Date
Approved by Rhys Angell Jones – Headteacher		15/10/25
Approved by Rob Evans – Chair of Governors		15/10/25



CHILD SAFEGUARDING POLICY

In all of the school's policies we strive to achieve the aims and objectives of the Wales Young People's Active Rights seven core aims framework.

“DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD”

By co-operating and trusting each other we want to ensure that every pupil fulfils his or her potential with regard to their ability and talents. We do this by offering opportunities, support and guidance within a positive, broadminded, safe and civilised society.

The vision for our pupils

We want to develop pupils who are fluent in Welsh and English who are proud of the tradition and heritage of their locality and country. We seek balanced and responsible citizens who respect the rights of other individuals and are comfortable with themselves. They will respect their minds, their spirit and their bodies and they will have broad horizons and curiosity for new information. They possess the necessary skills to benefit from challenges in the future in the world of work and in society and they will want to continue to grow and develop as lifelong learners and citizens of the world.

Timeline for Submitting the Child Safeguarding Policy 2025–26

The Safeguarding Policy and related policies were updated during September/October 2025. The consultation process on the updates will take place as follows:

Related to the Child Safeguarding Policy, the consultation will include:

- Child Safeguarding Policy
- Anti-Bullying Policy
- Equality Policy

Who?	How?	When?
SLT	SLT Meeting	06-10-25
All Staff	Staff Voice Meeting	09-10-25
School Parliament	School Parliament Meeting	10-10-25
Governors	Full Governors' Meeting	15-10-25
All Pupils	Whole-school Assemblies Anti-bullying week	Week commencing 03-11-25

Deadline for feedback on the policies: Friday 24th October 2025

1. Introduction
2. Prevention
3. Procedures
4. Definitions of Child Abuse and Neglect
5. School Governing Body
6. Supporting Those at Risk
7. Anti-Racism
8. Anti-Bullying
